O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 492 (Cy. 115)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 1 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:30 ar 1 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy), Conwy.

Cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o gerbytffordd gylchredol yr A470 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy) hyd at gyffordd Cylchfan y Black Cat.